

2024

# PECYN RECRIWTIO CADEIRYDD

Cofiwch sylwi mai gwirfoddol yw swyddi Ymddiriedolwyr ac felly yn ddi-dâl, ond gall treuliau rhesymol gael eu talu

Bydd y cyfle i ymgeisio yn cau am hanner nos ar 10/3/24

Hijinx

# CROESO

Diolch am roi o'ch amser i ddysgu rhagor am ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Hijinx. Rydym yn gyffrous am gael rhannu mwy gyda chi!

Yn y pecyn hwn fe welwch wybodaeth am Hijinx, manylion llawn am y swydd a sut i ymgeisio.

Fel sefydliad rydym wedi ymrwymo i'r hyn yr ydym yn ei wneud ac mae gennym ymdeimlad cryf iawn o gymuned. Fel tîm rydym yn poeni'n fawr am deulu Hijinx yn ehangach, ac mae gennym ddiwylliant cynnes, cyfoethog a chefnogol, yr ydym yn gobeithio ei fod yn gadael i bobl fyw eu bywydau gorau, mwyaf dilys. Rydym yn gweithio'n galed, yn chwarae'n galed ac yn chwerthin llawer!

Mae ein hymddiriedolwyr yn ganolog i'n llwyddiant, gan roi'r sgiliau a'r profiad i feithrin, cefnogi a rhoi'r oruchwyliaeth strategol i ni ffynnu.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth neu gefnogaeth cyn ymgeisio, neu i drafod unrhyw addasiadau rhesymol nu ystyriaethau mynediad er mwyn caniatáu i chi gymryd rhan lawn yn y broses gyfweld, cysylltwch â ni yn sarah.horner@hijinx.org.uk

Diolch am eich amser – rydym yn gwirioneddol edrych ymlaen at gael clywed gennych, ac archwilio sut y bydd eich sgiliau, profiadau a'ch angerdd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n gwaith.

*Sarah*

Sarah Horner, Prif Weithredwr



Hijinx

EIN GWELEDIGAETH

Byd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn gwbl gynhwysol i bobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

EIN CENHADAETH

Arloesi, cynhyrchu a hyrwyddo cyfleoedd proffesiynol a chyfranogol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistig

AM HIJINX

Mae Hijinx yn creu theatr wefreiddiol a gwrthdroadol sy'n cael canmoliaeth uchel ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth yn cael eu cynnwys bob cam o'r ffordd wrth lunio a pherfformio eu storïau.

Mae Academïau Hijinx yn darparu'r unig gwrs hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru ar gyfer actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddwch yn dod o hyd iddynt yn unman arall. Rydym yn cynnal pum Academi ledled Cymru sydd â thros 60 o actorion dan hyfforddiant.

Ochr yn ochr â hyn, mae gennym raglen ffilm sy'n tyfu ac arlwy cymunedol ac allgymorth deinamig (PAWB). Trwy Actorion Hijinx, rydym yn hyrwyddo ein hactorion i'r celfyddydau a diwydiannau creadigol ehangach, yn ogystal â chynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ein hyfforddiant cyfathrebu arobryn.

Mae Hijinx yn cydnabod, parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym wedi ymrwymo i les ein staff, i fod yn gyflogwr Cyfle Cyfartal ac i ddenu talent amrywiol o rannau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliant ar hyn o bryd i'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy amrywiol.

## RYDYM YN CREU NEWID TRWY FYW AC ANADLU EIN NODAU SEFYDLIADOL...



Cynyddu cynrychiolaeth rhai ag anabledd dysgu/awtistiaeth ar y llwyfan a'r sgrin



Darparu, pledio o blaid a hwyluso cyflogaeth broffesiynol i artistiaid proffesiynol creadigol ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth.



Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.





Trawsnewid y sector i weithio'n fwy cynhwysol.

Cynyddu mynediad at y celfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru



**"Mae pobl ag anableddau yno i ddangos i bobl ein bod ni'n ddynol ac rydyn ni eisiau iddyn nhw gael eu diddanu gan yr hyn rydyn ni'n ei wneud."**

Actor Hijinx bellach yn gweithio ar gynhyrchiad teithiol ar raddfa fawr

## YNGLŶN Â BOD YN YMDDIRIEDOLWR

Mae ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Theatr Hijinx yn cynnig cyfle cyffrous i gyfrannu at gymuned gelfyddydol ddeinamig a chynhwysol. Rydym yn chwilio am unigolion sy'n barod i gynnig safbwyntiau a dealltwriaeth newydd, wedi eu tynnu o brofiadau bywyd a phroffesiynol.

Ar gyfer swydd y Cadeirydd, tra ein bod yn meddwl ei bod yn debygol y bydd gennych brofiad o fod yn Ymddiriedolwr, rydym hefyd yn awyddus i glywed gan y rhai sydd yn teimlo y gallent gymryd y swydd a chyfrannu'n gadarnhaol at ein strategaeth a llwyddiant tymor hir y sefydliad.

Rydym yn awyddus i glywed gan ymgeiswyr sydd wedi cael eu tangynrychioli yn y gorffennol yn Hijinx ac yn y diwydiant celfyddydol oherwydd rhwystrau yn gysylltiedig ag ethnigrwydd, dosbarth, anabledd, rhyw, daearyddiaeth, rhywedd, oedran a chrefydd. Mae gennym ddiddordeb yn benodol mewn unigolion sy'n dwyn setiau penodol o sgiliau sy'n cyd-fynd â'n hanghenion.

- Cynllunio Strategol
- Anabledd a Gwahaniaethu
- Y Gymraeg
- Prosiectau Cyfalaf
- Codi Arian
- Ymgysylltiad Cymunedol
- Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Elusen a'r Trydydd Sector



EIN BWRDD

Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr cyfredol yn Hijinx yn cynnwys unigolion o gefndiroedd amrywiol, pob un yn dwyn eu profiadau a'u harbenigedd unigryw. Mae eu sgiliau ar y cyd yn cwmpasu ardaloedd fel cynhyrchu theatr, ymgysylltu cymunedol, llywodraethu, a chyllid, y cyfan wedi ei gyfuno gan angerdd am gelfyddydau cynhwysol sy'n cael effaith.

Mae ein Hymddiriedolwyr yn chwarae rhan allweddol wrth siapio cyfeiriad ac ethos Theatr Hijinx, gan sicrhau ein bod yn cadw'n driw i'n cenhadaeth o gynhwysiant a rhagoriaeth yn y celfyddydau.

PROFIADAU YMDDIRIEDOLWYR

*"Rwyf wrth fy modd yn bod yn Ymddiriedolwr Hijinx. Mae'n fraint gallu cefnogi'r sefydliad gwych yma, gan helpu lle byddaf yn gallu, a chael fy synnu yn gyson gan wychder y tîm. Mae bod yn ymddiriedolwr yn gyfle mor wych. Rwyf wedi bod yn lwcus i ddysgu llawer gan dîm Hijinx."*

*"Mae bod yn ymddiriedolwr i Hijinx wedi helpu i gynyddu fy hyder a gwella fyd sgiliau cyfathrebu a dadansoddi. Rwyf hefyd wedi mwynhau'r cyfle i ddefnyddio fy ngwybodaeth fel cyfreithiwr i ddatblygu atebion ymarferol a gwneud penderfyniadau masnachol."*

### YR YMDDIRIEDOLWYR PRESENNOL

James Downes (Cadeirydd), 2016

Richard Miles-Thorne, 2016

Tom Curteis, 2020

Nia Morgan, 2020


Edward Talfan, 2020

Selma Dimitrijevic, 2020

Menna Chmielewski, 2021

Richard Marsh (Trysorydd), 2023

Allison Powell, 2023



# AM BETH YR YDYM YN CHWILIO MEWN CADEIRYDD

Rydym yn chwilio am Gadeirydd newydd i Hijinx sydd yn gwirioneddol adlewyrchu ein gwerthoedd a chenhadaeth creiddiol.

Rydym yn credu y byddai'r person delfrydol yn:

- Eiriolwr gwirioneddol i Hijinx, yn fedrus wrth ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid allweddol gan barhau yn agos at bobl a llawn tact.
- Arweinydd sy'n rhagori ar uno ein tîm, yn neilltuol trwy heriau, gan wneud y mwyaf o gryfderau ar y cyd y Bwrdd.
- Yn edrych ymlaen, ond yn ymwybodol o'r ansicrwydd presennol yn y sector celfyddydol.
- Yn ddatryswr problemau sy'n ymdrin â phroblemau cymhleth yn ystyriol, yn gofyn cwestiynau beirniadol mewn ffordd lawn parch ac effeithlon.
- Profiad profedig mewn uwch reoli, yn arbennig wrth arwain ein Prif Weithredwr yn ôl disgwyliadau'r Ymddiriedolwyr.
- Yn annibynnol ei b/farn, yn gallu gwneud a chadarnhau penderfyniadau sydd wedi eu hystyried yn dda.
- Yn ymroddedig i safonau moesegol uchel, yn cyd-fynd ag egwyddorion Nolan: yn anhunanol, ag integriti, yn wrthrychol, yn atebol, yn agored, yn ddidwyll, ac yn rhoi arweiniad.
- Deall a hyrwyddo Cod Llywodraethu Elusennau.
- Yn ymroddedig i werthoedd Hijinx, yn barod i fuddsoddi'r amser a'r ymdrech angenrheidiol a theithio yn achlysurol.
- Yn awyddus i ddilyn a chefnogi hyfforddiant a datblygu parhaus i chi eich hun a'r bwrdd mewn meysydd cydymffurfio allweddol.

Yn ei hanfod rydym yn chwilio am rywun sy'n fwy na dim ond deiliad swydd – rhywun sy'n angerddol am gael effaith diriaethol yn Hijinx.

Yn ychwanegol at y profiad a'r nodweddion uchod, rydym yn chwilio am y nodweddion canlynol yn ein holl Ymddiriedolwyr:

- Gallu cadarn i wneud penderfyniadau.
- Sgiliau meddwl creadigol a strategol.
- Gwaith tîm a chryfderau cydweithredol.
- Gallu cyfathrebu rhyngbersonol cryf
- Ymrwymiad dwfn i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Dibynadwyaeth a'r gallu i ennill parch.
- Gwybodaeth a pharch i ymrwymiadau cyfreithiol Ymddiriedolwr.
- Ymrwymiad i roi'r amser a'r ymdrech gofynnol.
- Deall a hyrwyddo Cod Llywodraethu Elusennau.
- Yn awyddus i ddilyn a chefnogi hyfforddiant a datblygu parhaus i chi eich hun a'r bwrdd mewn meysydd cydymffurfio allweddol.




# CYFRIFOLDEBAU'R CADEIRYDD A'R YMDDIRIEDOLWYR

Yn swydd y Cadeirydd, mae eich cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Rheoli a rhedeg cyfarfodydd y Bwrdd yn effeithlon.
- Arwain y Bwrdd wrth roi cyfeiriad strategol clir ac ystyriol i'r tîm gweithredol, gan gynnwys gosod amcanion a nodau, ac asesu perfformiad mewn cymhariaeth â'r meincnodau hyn.
- Cynrychioli Hijinx fel llefarydd.
- Rheolwr llinell i'r Prif Weithredwr, gan roi cefnogaeth a chyngor ar faterion rheoli a strategol.
- Gwasanaethu fel prif gyswllt y Bwrdd ar gyfer y Prif Weithredwr, gan sicrhau cyfathrebu cyson tu allan i gyfarfodydd.
- Chwarae rhan allweddol yn y broses recriwtio ar gyfer y Prif Weithredwr, yn ôl yr angen, a chymryd rhan wrth ddewis Ymddiriedolwyr newydd

Fel cadeirydd, ochr yn ochr â'r Ymddiriedolwyr, rydych yn gyfrifol am:

- Gadw'r elusen yn ddiddyled ac yn cael ei rhedeg yn dda, sicrhau ei bod yn cyflawni ei nodau elusennol er budd y cyhoedd.
- Sicrhau bod Hijinx yn dilyn ei ddogfennau llywodraethu a'r holl gyfreithiau perthnasol, gan gynnal integriti a moeseg cadarn.
- Defnyddio eich sgiliau a'ch gwybodaeth i arwain penderfyniadau'r Bwrdd, gan gynnwys adolygu deunyddiau'r Bwrdd a chynnig cyngor arbenigol mewn meysydd yr ydych yn arbenigo ynddynt.

Bydd eich swyddogaeth fel Cadeirydd yn Hijinx yn cynnwys:

- Bydd ymddiriedolwyr yn nodweddiadol yn gwasanaethu am dymhorau o flwyddyn sy'n parhau, gyda'r ailbenodiadau yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Rydym yn annog Ymddiriedolwyr i anelu at ymrwymiad o dair blynedd o leiaf, i sicrhau parhad a dyfnder yn eu cyfraniadau, gan gryfhau eu dylanwad ar gyfarwyddo a llwyddiannau'r theatr.
- Cymryd rhan mewn pedwar o Gyfarfodydd Bwrdd dwy awr y flwyddyn, gan gydweithio gyda'r Prif Weithredwr i osod agendâu.
- Mynd i unrhyw gyfarfodydd pwyllgor angenrheidiol, diwrnod cynllunio blynyddol, a hyfforddiant sy'n ofynnol i'r Bwrdd.
- Yn draddodiadol mae'r Cadeirydd yn aelod o Bwyllgorau Cyllid a Phobl y bwrdd, sy'n cyfarfod yn chwarterol.
- Gall y Cadeirydd hefyd ymuno â phwyllgor arall (Codi Arian, Artistig, Cydraddoldeb Strategol), yn nodweddiadol yn cynnwys pedwar cyfarfod y flwyddyn.
- Bod yn bresennol mewn digwyddiadau, gan gynnwys dangosiadau cyntaf a pherfformiadau eraill, i drochi yng ngweithgareddau Theatr Hijinx.
- Cynnig eich arbenigedd pan fydd ei angen.
- Mynd ati yn weithredol i hyrwyddo a chefnogi cenhadaeth, gwerthoedd ac amcanion strategol Hijinx.

Ar gyfartaledd, disgwylir i ymrwymiad y Cadeirydd fod tua un diwrnod y mis.



# I WNEUD CAIS

Os ydych yn credu eich bod yn addas i'r rôl ac yr hoffech wneud cais, anfonwch y canlynol atom:

1. CV cyfredol sy'n sôn am eich profiad gwaith hyd yma – gwnewch yn siŵr eich bod yn amlygu profiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word.

2. Llythyr eglurhaol – nad yw'n hwy na dwy ochr – sy'n dweud wrthym pam yr ydych yn ymgeisydd delfrydol a sut byddwch yn mynd ati i gyflawni cyfrifoldebau'r rôl. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word.

3. Ffurflen Monitro Amrywiaeth wedi'i llenwi – y dylid ei llenwi ar-lein yma – cadarnhewch yn eich llythyr eglurhaol eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon.

Dylid anfon ceisiadau at sarah.horner@hijinx.org.uk erbyn y dyddiad cau.

**Bydd ceisiadau yn cau am 11.59pm 10/3/24**.

AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Os oes gennych unrhyw ofynion hygyrchedd, os oes arnoch angen unrhyw addasiadau rhesymol eraill, neu os hoffech gael y wybodaeth am y rôl mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar sarah.horner@hijinx.org.uk

**Y Broses Recriwtio**

Yn dilyn y dyddiad cau byddwn yn dilyn y broses ganlynol:

1. Bydd y ceisiadau'n cael eu hadolygu gan banel o'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr.
2. Bydd ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am sgwrs fer anffurfiol gydag aelodau o'r bwrdd.
3. Byddai ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i arsylwi ar gyfarfod y bwrdd (Mawrth a Mai).
4. Yna byddai ymgeiswyr fyddai â diddordeb yn cael eu gwahodd i gyfweliad mwy ffurfiol gydag aelodau o'r bwrdd.
5. Byddai pleidlais i'r ymddiriedolwyr newydd ymuno â'r bwrdd yn y cyfarfod nesaf fyddai ar gael.

# AM HIJINX

Mae Hijinx yn ecosystem, gydag ystod eang o weithgareddau wedi eu dylunio a'u curadu yn ofalus i weithio i droi yn ffaith ein gweledigaeth o fyd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn hollol gynhwysol i bobl ag Anabledd dysgu a /neu Awtistig.

Trwy ein hyfforddiant, cynyrchiadau, gwaith, cynrychiolaeth broffesiynol a chefnogaeth, rydym wedi creu llwybr i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistig i ddod yn berfformwyr proffesiynol. Ers cyflwyno Academïau Hijinx yn 2012, rydym wedi gweld y llwybr hwn yn tyfu, gan ymateb ac addasu i anghenion ein hartistiaid, a'r newidiadau yn y sector.

Mae ein hallbwn creadigol yn canolbwyntio ar ein hartistiaid, gan eu dwyn at ei gilydd gydag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol creadigol, i greu gwaith sy'n ddewr a dilys.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth rydym yn gweithredu ar draws pump o linynnau gwahanol, yr ydym yn eu galw yn dai:

- Academi
- Swyddi – Hyfforddiant Castio a Chyfathrebu
- Pawb
- Theatr – yn cynnwys Gŵyl Undod
- Ffilm

Mae gan bob tŷ ei staff penodol ei hun sy'n cael eu cefnogi gan ein tîm staff canolog.



ACADEMI

Academïau Hijinx yw sylfaen y cwmni, sy'n rhoi'r unig gwrs hyfforddi perfformio yng Nghymru i bobl ag Anabledd Dysgu a/neu awtistig i ddod yn berfformwyr proffesiynol.

SWYDDI: CASTIO

Actorion Hijinx yw'r safle castio mwyaf yn y Deyrnas Unedig sydd wedi ei neilltuo i actorion ag anabledd dysgu a/neu awtistig. Rydym yn hyrwyddo dros 60 o actorion o ledled Cymru. Rydym yn cefnogi ein hartistiaid trwy bob rhan o'r broses, o glyweliadau i sicrhau bod galluogwyr creadigol yn eu lle petai ar yr artist eu hangen i gyflawni ei ran.

SWYDDI: HYFFORDDIANT CYFATHREBU

Mae ein portffolio hyfforddi cyfathrebu prysur sydd wedi ennill gwobrau yn rhoi swyddi i artistiaid Hijinx a gweithwyr creadigol trwy Gymru a thu hwnt. Rydym yn gweithio yn yr ystafell ac ar-lein i helpu cwmnïau i gyfathrebu a dangos eu hymrwymiad i gynhwysiant ac amrywiaeth.

Trwy ein hyfforddiant rydym yn:

- Cynyddu'r nifer o swyddi actio proffesiynol cyflogedig i Actorion Hijinx
- Gwella'r ffordd y mae'r cyhoedd yn cyfathrebu gyda phobl fregus ac i gynyddu cynrychiolaeth i bobl ag anabledd dysgu ac awtistig
- Creu incwm i Hijinx

PAWB

Pobl a chymunedau sydd yn ganolog i Pawb. Trwy ein gwaith cymunedol rydym yn anelu i bob person ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yng Nghymru gael eu gwerthfawrogi a'u parchu fel crewyr / gwneuthurwyr / actorion.

Rydym yn gwneud hyn trwy:

- Sylfeini Drama
- Theatr Pobl Ifanc
- Theatr Gymunedol
- Cerddoriaeth Gymunedol
- Llwybrau
- Allestyn Rhyngwladol

# CYNHYRCHIADAU

THEATR

Rydym yn creu theatr gyffrous, chwyldroadol ar raddfa fawr a bach y tu allan, dan do ac yn ddigidol. Mae ein theatr yn cyrraedd cynulleidfa leol, genedlaethol a rhyngwladol. Mae artistiaid ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn rhan o bob cam o'r ffordd wrth greu a pherfformio eu storïau.

Mae ein Gweledigaeth a Phroses Artistig, ynghyd â'r fframwaith rhaglennu wedi ei adnewyddu (gweler y dudalen nesaf) yn sicrhau bod Hijinx yn creu, cynhyrchu a theithio rhythm cyson o waith dewr, heriol a dilys.

THEATR - GŴYL UNDOD

Wedi ei chreu yn 2008 Gŵyl Undod Hijinx yw un o wyliau celfyddydol cynhwysol mwyaf Ewrop, a'r unig un o'i math yng Nghymru.

FFILM

Rydym yn ymdrin â ffilm yn yr un modd ag y gwnawn â theatr: ein hactorion sydd wrth wraidd y gwaith, mae eu lleisiau'n rhan annatod ohono, ac rydym yn creu profiad gwylio sy'n hollol wahanol. Rydym yn asiantau dros newid yn y diwydiant teledu a ffilm, gan ymdrechu i gael mwy o gyfleoedd i'n hartistiaid.

Ers 2019 rydym wedi dechrau llunio cynyrchiadau ffilm byr blynyddol, hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo, ac rydym yn awr yn gweithio gyda nifer o bartneriaid cynhyrchu profiadol i wneud ein ffilm lawn gyntaf.

PROSIECTAU THEATR

Dros y 5 mlynedd nesaf mae gennym raglen gyffrous o'n cynyrchiadau theatr teithiol ein hunain, prosiectau ar y cyd â chynhyrchwyr o Gymru a rhyngwladol, a chynlluniau ar gyfer ein ffilm hir gyntaf erioed.

Sherman Cymru (2023) Housemates - ar gyfer y prif dŷ, yn seiliedig ar hanes Ysbyty Trelai.

Theatr Iolo (2026) Sioe newydd i gynulleidfaoedd ifanc

Theatr Clwyd (2027) Sioe newydd a ddatblygwyd ochr yn ochr â'n Hacademi yng Ngogledd Cymru

RHYNGWLADOL

Meet Fred (2024) Prosiect ar y cyd gyda'r Wooran Foundation i gynhyrchu fersiwn i Dde Corea o'n sioe boblogaidd.

Compagnie L'Oiseau Mouche (2024) Prosiect ar y cyd rhwng Cymru a Ffrainc i greu darn newydd o theatr pypedau, i deithio yn Ffrainc a'r Deyrnas Unedig.


Danza Mobile (2025/26) Prosiect ar y cyd rhwng Cymru a Sbaen. Prosiect ar y cyd i greu perfformiad stryd newydd ar gyfer Gŵyl Escena Mobile, Seville.

DIGWYDDIAD ARLOESOL

Bydd ein Cynllun Artistig 5 mlynedd yn adeiladu at gynhyrchiad arloesol, penodol i safle ar y cyd â National Theatre Wales (2028). Bydd y cynhyrchiad hwn yn cynnwys y 60 a mwy o artistiaid sydd gennym trwy Gymru gyfan.

FFILM HIR

Yn ychwanegol at hyn byddwn yn cynhyrchu ein ffilm hir gyntaf. Wedi ei threfnu ar hyn o bryd ar gyfer 2024/25, bydd Being Normal yn cael ei chyfarwyddo gan Dylan Wyn Richards gyda'r partneriaid cynhyrchu Triongl a Raindog yn barod i gydweithio.



# EIN NODAU AC AMCANION STRATEGOL

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y cyfnod hyd 2027 ac mae wedi cael ei ddatblygu gan dîm Hijinx trwy raglen ddatblygu strategol gadarn gyda Pilotlight, wedi ei gefnogi gan y Dyfarniadau Elusen Weston.

Ond mae wedi ei greu yng nghyd-destun ein huchelgais yn y tymor hwy.

MEWN DENG MLYNEDD BYDDWN…

- Yn cael ein hadnabod fel y theatr gynhwysol genedlaethol i Gymru - yn cynrychioli yn rhyngwladol a gartref
- Wedi creu canolfan ar gyfer perfformio cynhwysol yng Nghymru a chartref parhaol i Hijinx
- Â chynulleidfa sydd wedi ymgysylltu ac yn deyrngar sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru a hefyd yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn gyson
- Yn gweld bod ein Hactorion Hijinx a gweithwyr creadigol anabl eraill â gyrfaoedd ffyniannus sy'n rhoi boddhad yn y diwydiannau creadigol
- Yn rym amlwg dros newid cadarnhaol mewn cymdeithas, gan yrru cynhwysiant, amrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol
- Wedi cyfrannu at adfer a chryfhau'r sector theatr a'i drawsnewidiad yn ofod gwirioneddol gynhwysol
- Yn gwmni gwydn yn ariannol a sefydliadol sy'n meithrin ei bobl a'u talentau

NODAU STRATEGOL AR GYFER 2023-27

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, byddwn yn canolbwyntio ar bedwar nod strategol yn y cyfnod 2023-2027:

1. Cynyddu mynediad at greadigrwydd, hyfforddiant, gwaith a lleoedd
2. Cynyddu ein cyrraedd a chryfhau ein heffaith
3. Cynyddu'r gallu i gyflawni ein gwaith a'n potensial Creadigol
4. Sicrhau bod ein gwaith yn gynaliadwy, yn gefnogol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, a'n planed